# Cyfrifiad Oedolion sy’n Derbyn Gofal a Chymorth 2026-27

## Cefndir

Mae'r Cyfrifiad oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn seiliedig ar y diffiniad o oedolion cymwys sy’n cael gofal a chymorth, h.y. oedolion (18 oed neu hŷn) sydd â chynllun gofal a chymorth. Mae hyn wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydlynu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, yna dylid eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

Dylid cyflwyno data i Lywodraeth Cymru yn flynyddol ac mae'n adlewyrchu gwerth blwyddyn ariannol o ddata ar gyfer oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn y cyfnod 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.

Cafodd y Cyfrifiad oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn 2022.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar gwblhau a chyflwyno

Dylid defnyddio ffurflen y cyfrifiad Oedolion sy'n derbyn ofal a chymorth 2026-27 i gofnodi data unigol ar gyfer pob oedolyn sydd wedi derbyn gofal a chymorth yn y flwyddyn 2026-27.

Rhennir y casgliad yn ddwy adran. Rhaid cwblhau Adran 1, Manylion Craidd, ar gyfer pob oedolyn sydd wedi cael cynllun gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae Adran 2, Manylion Gofal a Chymorth, i'w chwblhau dim ond ar gyfer y rhai sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2027.

I'r oedolion hynny y daeth eu cynlluniau gofal a chymorth i ben ganol y flwyddyn, rhowch y manylion cywir ar y dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben.

Peidiwch â chynnwys oedolion sy'n talu'n breifat am eu gofal a'u cymorth eu hunain (hunan-ariannu). Os ar ôl 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu y daw i'r amlwg bod unigolyn wedi bod yn

derbyn gofal wedi'i hunan-ariannu, peidiwch â newid data ffurflen y cyfrifiad yn ôl-weithredol; fe'i bwriedir i fod yn giplun mewn amser.

## Gofynion Data

Ar gyfer Adran 1, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer oedolion a oedd â chynllun gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gasglu (2026-27). Felly, dylai'r ffurflen gynnwys **unrhyw oedolion a oedd â chynllun gofal a chymorth (Rhan 4)** yn ystod y cyfnod casglu, waeth am ba hyd yr oedd gan yr oedolyn neu'r person ifanc gynllun.

Mae angen llenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob oedolyn sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn gasglu, pa un a oes gan yr unigolyn hwnnw gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth neu beidio.

Ar gyfer Adran 2, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno data ar gyfer oedolion a oedd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn gasglu (h.y. 31 Mawrth 2027) yn unig.

Meysydd Gwir / Anwir: Mae nifer o feysydd yn y Cyfrifiad oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth y gellir eu hateb gyda 'gwir' neu 'anwir'. Y fformat ar gyfer y Cyfrifiad oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yw 1 os yw'n wir, a 0 os yw'n anwir. Fodd bynnag, mae nifer o ffyrdd y gall defnyddwyr systemau gwybodaeth reoli gofnodi hyn megis blychau gwirio neu gwymplen addas. Felly bydd yn rhaid i'r swyddogaeth allforio ar gyfer unrhyw system drosi'r meysydd hyn yn unol â hynny. Os yw eitemau'n cael eu gadael yn wag, tybir fod hynny'n dangos nad oes data ar gael.

Dylid ateb cwestiynau ynghylch "a oes gan" neu "a oedd gan" yr oedolyn briodoleddau penodol, e.e. problemau iechyd neu amhariad, gan gyfeirio at ddyddiad y cyfrifiad ar 31 Mawrth 2027 neu adeg cau cynllun gofal a chymorth yr oedolyn. Mae hyn yn golygu bod y briodoledd yn gyfredol yn unol â'r wybodaeth sydd ar gael ar 31 Mawrth 2027 neu ar adeg cau cynllun gofal a chymorth yr oedolyn.

Mae rhestr lawn o eitemau data yn Atodiad A. Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi canllawiau manwl pellach ar gyfer adrannau penodol.

Dylai'r ffurflen hon gael ei huwchlwytho/ei dilysu/ei chyflwyno ar Objective Connect erbyn 24 Medi 2027. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y ffurflen, cysylltwch â'r tîm casglu data.

# Manylion Craidd

Mae'r cwestiynau isod i'w cwblhau ar gyfer pob oedolyn sydd wedi cael cynllun gofal a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27.

## Cod awdurdod lleol

512 Ynys Môn
514 Gwynedd
516 Conwy
518 Sir Ddinbych
520 Sir y Fflint
522 Wrecsam
524 Powys
526 Ceredigion
528 Sir Benfro
530 Sir Gaerfyrddin
532 Abertawe
534 Castell-nedd Port Talbot
536 Pen-y-bont ar Ogwr
538 Bro Morgannwg
540 Rhondda Cynon Taf
542 Merthyr Tudful
544 Caerffili
545 Blaenau Gwent
546 Torfaen
548 Sir Fynwy
550 Casnewydd
552 Caerdydd

## Rhif adnabod oedolyn yr awdurdod lleol

Mae'n rhaid i hwn fod yn rif adnabod unigryw i bob oedolyn. Rhaid cadw'r rhif hwn o flwyddyn i flwyddyn. Dim ond llythrennau neu rifau y gall ID oedolion yr awdurdod lleol eu cynnwys. Rhaid iddo fod yr un rhif adnabod a ddefnyddir at ddibenion eraill.

Os ydych yn bwriadu newid rhif adnabod oedolyn yr awdurdod lleol, naill ai ar gyfer un oedolyn neu ar gyfer grŵp o oedolion, bydd hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag dadansoddi ar draws gwahanol flynyddoedd y cyfrifiad. Oherwydd hyn, dylid trafod unrhyw gynnig i newid y rhif adnabod oedolion gyda Llywodraeth Cymru ar gam cynnar a chyn gwneud unrhyw newidiadau.

## Cyfenw

Dylid darparu cyfenw hysbys diweddaraf yr oedolyn, fel y caiff ei gofnodi ar hyn o bryd.

## Enw(au) cyntaf

Dylid darparu enw cyntaf hysbys diweddaraf yr oedolyn, fel y mae wedi'i gofnodi ar hyn o bryd. Os oes gan yr unigolyn sawl enw cyntaf, rhowch bob enw gyda bwlch rhwng yr enwau.

## Cod post cartref yr oedolyn

Dylid darparu cod post hysbys diweddaraf y cyfeiriad lle'r oedd yr oedolyn yn byw. Nodwch god post cartref yr oedolyn yn y fformat a ganlyn ee CF10 4SD.

Os yw'r oedolyn yn byw mewn cartref gofal preswyl, a dyma yw ei brif breswylfa, rhowch god post y cartref gofal.

## Dyddiad geni

Dylid darparu dyddiad geni yn y fformat DD/MM/BBBB.

Os nad yw'r union ddyddiad geni yn hysbys, cofnodwch ddyddiad geni bras yn seiliedig ar yr amcangyfrif o oedran yr oedolyn ar y dyddiad atgyfeirio.

## Rhywedd

Rhywedd yw sut mae'r unigolyn yn adnabod ei hun. Efallai na fydd eu hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw ar eu tystysgrif geni. Gall unigolion wrthod darparu'r wybodaeth hon.

1 Gwryw
2 Benyw
3 Arall
4 Heb ei ddatgelu neu'n anhysbys

## Ethnigrwydd

Dylai ethnigrwydd gael ei benderfynu drwy ofyn i'r oedolyn am ei hunaniaeth ethnig yn gyntaf. Os nad yw'n gallu ymateb, gofynnwch i'w brif ofalwr.

WHTE1 - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
WHTE2 - Roma
WHTE3 - Unrhyw gefndir Gwyn arall (yn cynnwys Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig)
MIXD1 - Gwyn a Du Caribïaidd
MIXD2 - Gwyn a Du Affricanaidd
MIXD3 - Gwyn ac Asiaidd
MIXD4 - Unrhyw gefndir ethnig cymysg / lluosog arall
ASAB1 - Indiaidd
ASAB2 - Pacistanaidd
ASAB3 - Bangladeshaidd
ASAB4 - Tsieineaidd
ASAB5 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall
BBAC1 - Caribïaidd

BBAC2 - Affricanaidd
BBAC3 - Unrhyw gefndir Du arall
OOTH1 - Arabaidd
OOTH2 - Unrhyw gefndir ethnig arall
UNKN1 - Ddim yn gwybod

## Anabledd

At ddibenion yr eitem ddata hon, mae’r diffiniad o anabledd yn dilyn y diffiniad yn Adran 6(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy’n nodi’r canlynol:

“Mae gan berson (P) anabledd os—

(a) oes gan P amhariad corfforol neu feddyliol, a
(b) bod yr amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.”

Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, amhariad yw'r hyn y cyfeiriwyd ato'n hanesyddol fel “anabledd” neu gyflwr iechyd.

Yn ystod asesiad gofal cymdeithasol, bydd amhariadau'r oedolyn yn cael eu hystyried i benderfynu a yw'r oedolyn hwnnw yn ystyried ei hun yn anabl. Cofnodwch a oes gan oedolyn anabledd ar 31 Mawrth 2027.

Os oes cynllun ar waith ar 31 Mawrth, cofnodwch a oes gan yr oedolyn anabledd ar 31 Mawrth; os yw’r cynllun ar gau, cofnodwch yr anabledd hysbys ar y dyddiad cau.

**A oes gan yr oedolyn anabledd?**

- Oes
- Nac oes
- Heb ei nodi

Os dewiswyd Nac oes neu Heb ei nodi, ni ddylid gwneud unrhyw gofnodion eraill yn yr adran hon. Os dewiswyd Oes, yna ar gyfer pob un o'r amhariadau penodedig sy'n berthnasol, nodwch 1 os oedd gan yr oedolyn amhariad o'r math hwn ar 31 Mawrth 2027. Os oes cynllun ar waith ar 31 Mawrth, cofnodwch a oes gan yr oedolyn amhariad ar 31 Mawrth; os yw’r cynllun ar gau, cofnodwch yr amhariad hysbys ar y dyddiad cau.

Rhowch 0 os nad oedd gan yr oedolyn amhariad o'r math hwn ar 31 Mawrth 2027

**Categorïau o amhariad:**

- Golwg
- Clyw
- Corfforol (e.e., sgiliau echddygol bras, deheurwydd dwylo, neu symudedd)
- Salwch meddwl (nid dementia na chyflwr niwroddatblygiadol)

- Dementia
- Cyflwr niwroddatblygiadol (e.e. Cyflwr Sbectrwm Awtistig, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Syndrom Tourette neu anabledd dysgu)
- Arall (heb ei restru)
- Heb ei nodi

Efallai y bydd gan Oedolion amhariadau lluosog, ac os felly gellir nodi bod mwy nag un categori yn wir. Efallai y bydd nifer fach o oedolion sy'n anabl, ond nad oes ganddynt unrhyw un o'r amhariadau penodol. Ar gyfer yr oedolion hyn, rhowch 1 ar gyfer Arall (heb ei restru). Os oes gan oedolyn anabledd, ond nad yw'r amhariad yn hysbys, nodwch Anhysbys.

### Iaith

Cofnodwch ddewis iaith yr oedolyn; dyma'r iaith y mae'n well gan yr oedolyn ei defnyddio i gyfathrebu ag eraill. Os oes gwahaniaethau rhwng yr iaith ysgrifenedig neu lafar sy'n cael ei ffafrio, defnyddiwch yr iaith y darperir gofal a chymorth ynddi. Fel arfer, hon fydd yr iaith lafar neu wyneb yn wyneb orau. Gweler Atodiad B – Rhestr Codau Iaith.

Os oes cynllun ar waith ar 31 Mawrth, cofnodwch y dewis iaith ar 31 Mawrth; os yw'r cynllun ar gau, cofnodwch y dewis iaith ar y dyddiad y daeth i ben.

## Dyddiad dechrau'r cyfnod parhaus diweddaraf o ofal a chymorth

Mae'r eitem ddata hon yn ceisio cofnodi'r dyddiad y dechreuodd y cyfnod parhaus diweddaraf o ofal a chymorth; i lawer o oedolion gall y dyddiad hwn fod yn ymhell yn y gorffennol. Efallai y cynhaliwyd adolygiadau o gynllun gofal a chymorth yr oedolyn drwy gydol y cyfnod hwn, ac efallai bod eu hanghenion wedi newid.

Dylid cofnodi'r dyddiad hwn fel DD/MM/BBBB.

Ar gyfer cynlluniau dros 3 oed, byddwn yn derbyn dyddiad bras.

Ar gyfer achosion sy'n trosglwyddo o awdurdod lleol arall, defnyddiwch y dyddiad trosglwyddo.

Os nad oes dyddiad dechrau clir i'r cynllun gofal a chymorth, defnyddiwch ddyddiad cwblhau'r asesiad.
Os trosglwyddodd oedolyn o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, defnyddiwch y dyddiad pan ddigwyddodd hynny. I rai awdurdodau lleol, efallai mai dyddiad pen-blwydd yr oedolyn yn 18 oed fydd hwn os caiff y cynllun gofal a chymorth ei drosglwyddo'n awtomatig rhwng adrannau.

## Cynllun gofal a chymorth yn weithredol ar 31 Mawrth

Rhowch 1 os oedd gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2027
Rhowch 0 os nad oedd gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth 2027

## Dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben

Ar gyfer yr oedolion hynny y daeth eu cynllun i ben o fewn y flwyddyn adrodd, ac nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth, nodwch y dyddiad y caewyd y cynllun gofal a chymorth.

Daw cynllun i ben pan nad yw'r awdurdod lleol yn darparu unrhyw ofal neu gymorth i'r oedolyn mwyach. Gall awdurdod lleol ddod â chynllun i ben, ond nid yr achos. Peidiwch â rhoi dyddiad dod i ben os yw'r oedolyn yn cael gofal parhaus drwy'r flwyddyn gasglu. Os yw cynllun wedi cau a bod cynllun newydd wedi agor o fewn yr un flwyddyn gasglu ac roedd ar waith ar 31 Mawrth, peidiwch â darparu dyddiad cau chwaith.

Mae gan yr eitem hon ddiddordeb mewn a yw unigolyn yn *parhau* i dderbyn gofal a chymorth ar 31 Mawrth y flwyddyn gasglu, waeth a oedd bwlch yn ystod y flwyddyn gasglu lle nad oeddent yn derbyn gofal a chymorth.

Dylid cofnodi'r dyddiad hwn fel DD/MM/BBBB

Defnyddiwch y dyddiad y daeth y cynllun i ben am y tro diwethaf os oes mwy nag un cyfnod o ofal a chymorth yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer achosion sy'n trosglwyddo i awdurdod lleol arall, defnyddiwch y dyddiad trosglwyddo.

## Rheswm dros ddod â'r cynllun gofal a chymorth i ben

I'r oedolion hynny y daeth eu cynlluniau gofal a chymorth i ben yn ystod y flwyddyn, ac y cofnodwyd hynny uchod, nodwch y rheswm mwyaf priodol y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben, o'r rhestr isod:

1 – Gwasanaeth wedi'i gwblhau neu wedi dod i ben (e.e. gofal ailalluogi neu liniaru)
2 – Trosglwyddo/symud i awdurdod lleol arall
3 – Camu i lawr i wasanaethau ataliol (nid oes angen gofal a chymorth parhaus mwyach)
4 – Symud i'r gwasanaeth iechyd (e.e. Gofal Iechyd Parhaus neu dderbyn i'r ysbyty yn hirdymor)
5 – Symud i hunan-ariannu (h.y. ymwneud yr awdurdod lleol wedi dod i ben a'r cynllun gofal a chymorth wedi dod i ben)
6 – Wedi gwrthod gwasanaeth
7 – Wedi marw
8 – Arall
Dewiswch un categori yn unig o'r rhestr uchod. Ni ellir gadael hwn yn wag ar gyfer yr oedolion hynny y mae iddynt *gynllun gofal a chymorth wedi cau* yn ystod y flwyddyn gasglu.

## Amddiffyn Oedolion

Ar gyfer oedolion sydd wedi dechrau gweithdrefnau amddiffyn ffurfiol.

Rhowch 1 os cafwyd ymholiadau yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen camau gweithredu gan arwain at gynllun amddiffyn, gofal a chymorth
Rhowch 0 os na chafwyd ymholiadau yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen camau gweithredu gan arwain at gynllun amddiffyn, gofal a chymorth

## Categori amddiffyn

Diben hwn yw cofnodi categorïau amddiffyn ar gyfer pob oedolyn y mae camau amddiffyn yn berthnasol iddo, gyda Chynllun Diogelu Gofal a Chymorth yn ystod a flwyddwyn, **waeth pa bryd y gwnaed yr ymholiadau**. Cofnodwch gategori neu gategorïau'r gamdriniaeth ac esgeulustod a

gofnodwyd ar Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yr oedolyn (os oedd manylion y gamdriniaeth neu esgeulustod wedi'u cofnodi).

Gallai'r categori a ddefnyddir nodi'r prif bryder pan nodwyd camau ychwanegol. Gall mwy nag un categori fod yn berthnasol. Os gwneir ymholiadau lluosog yn ystod y flwyddyn, nodwch 1 ar gyfer yr holl gategorïau a gofnodwyd.

Ar gyfer pob un o'r categorïau penodol sy'n berthnasol, rhowch 1 os oedd y categori'n bresennol ar adeg y nodwyd camau ychwanegol. Rhowch 0 os nad oedd y categori yn bresennol ar adeg y nodwyd camau ychwanegol.

- Esgeulustod
- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol
- Emosiynol/Seicolegol (yn unig)

Sylwch y byddwn yn tybio bod camdriniaeth emosiynol/seicolegol yn digwydd bob amser os bydd un o'r mathau eraill o gamdriniaeth yn digwydd. Felly, dim ond os yw'n digwydd ar wahân heb y mathau eraill o gamdriniaeth y dylid ei gofnodi. Os yw 1 yn cael ei nodi ar gyfer "emosiynol/seicolegol (yn unig)", dylid cofnodi pob categori arall fel 0.

Gadewch y maes hwn yn wag os nad oedd yr awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol i amddiffyn yr oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

# Manylion Gofal a Chymorth

Mae'r eitemau data isod i'w cwblhau ar gyfer yr oedolion hynny sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar **31 Mawrth 2027** yn unig.

## Preswylfa

Dylid cofnodi’r math o breswylfa ar gyfer yr unigolyn ar 31 Mawrth. Dewiswch y math o lety y mae’r oedolyn yn byw ynddo ar 31 Mawrth.

Rhowch 1 os yw'r oedolyn yn byw yn ei gartref ei hun (h.y. yn byw yn y gymuned). Mae hyn yn cynnwys os yw’r oedolyn yn byw mewn cartref gofal preswyl neu lety â chymorth **fel lleoliad tymor byr neu ofal seibiant** – ond yn byw adref fel arfer. Mae hyn yn berthnasol i lety a ddarperir gan yr awdurdod lleol a chartrefi gofal preifat/tai â chymorth. Dylid cofnodi Oedolion mewn Cynllun Lleoli Oedolion (Bywydau a Rennir) yma.

Rhowch 2 os yw’r oedolyn yn byw mewn cartref gofal preswyl neu lety â chymorth ar **leoliad hirdymor**. Fel uchod, mae hyn yn berthnasol i lety a ddarperir gan yr awdurdod lleol a chartrefi gofal preifat/tai â chymorth.

Rhowch 3 os yw’r oedolyn yn cael ei gadw yn yr ystâd ddiogel ar hyn o bryd. Rhowch 3 dim ond os yw’r oedolyn yn cael ei gadw am gyfnod o **fwy na tri mis.**

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

Os nad yw’r unigolyn yn byw mewn cartref gofal preswyl ar leoliad hirdymor neu’n cael ei gadw yn yr ystâd ddiogel am gyfnod o fwy na thri mis, ystyrir eu bod yn byw yn eu cartref eu hunain.

Yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol lle mae’r ystâd ddiogel wedi’i lleoli.

## Gweithdrefnau Amddiffyn Cyfredol

Rhowch 1 os oedd gan oedolyn gynllun amddiffyn, gofal a chymorth **gweithredol** ar 31 Mawrth lle roedd yr awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol i ddiogelu oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu berygl o gam-driniaeth neu esgeulustod.
Rhowch 0 os nad oedd gan oedolyn gynllun amddiffyn, gofal a chymorth **gweithredol** ar 31 Mawrth lle roedd yr awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol i ddiogelu oedolyn rhag cam-driniaeth neu esgeulustod neu berygl o gam-driniaeth neu esgeulustod.

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

## Mathau o ofal a chymorth

Dylid cofnodi’r mathau o ofal a chymorth sy’n cael ei ddarparu, ei gomisiynu neu ei ariannu ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol, a dylent fod yn rhan o’r cofnod parhaus o ofal a chymorth. Dewiswch pa fathau o ofal a chymorth y mae’r unigolyn yn ei gael ar hyn o bryd (h.y., ar 31 Mawrth). Gellir rhoi mwy nag un math o ofal a chymorth i unigolyn. Dewiswch bob math y mae’r unigolyn yn ei gael.

Ar gyfer pob math o ofal a chymorth, rhowch 1 os yw’n cael ei ddarparu i’r oedolyn ar hyn o bryd. Rhowch 0 os nad yw’r oedolyn yn cael y math hwn o ofal a chymorth ar hyn o bryd.

Os nad yw'r oedolyn yn derbyn unrhyw un o'r mathau rhestredig o ofal a chymorth ar hyn o bryd, nodwch 0 yn erbyn pob math o ofal a chymorth.

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

Mathau o ofal a chymorth:

- Gofal cartref
- Gofal dydd
- Gofal seibiant / Seibiant byr / Gofal amgen
- Cynllun Lleoli Oedolion (Bywydau a Rennir)
- Llety â chymorth/byw â chymorth
- Taliadau uniongyrchol
- Cartrefi gofal i oedolion (heb ofal nyrsio)
- Cartrefi gofal i oedolion gyda gofal nyrsio
- Ail-alluogi
- Arall

**Gofal cartref –** Gwasanaethau ymarferol sy'n cynorthwyo'r unigolyn i fyw mor annibynnol â phosibl a/neu i barhau i fyw yn eu cartref. Peidiwch â chynnwys gwasanaethau ail-alluogi sy'n cael eu cynnal yng nghartref yr unigolyn. Dylid cofnodi hyn fel ailalluogi.

**Gofal dydd –** Presenoldeb mewn canolfan ddydd neu yn y gymuned i gael gofal a/neu brydau.

**Gofal seibiant –** Gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol i ddarparu seibiant i'r gofalwr/gofalwyr a'r unigolyn sy'n cael gofal, lle bydd yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth yn cael llety y tu allan i'r cartref neu ei breswylfa arferol, e.e., mewn lleoliad gofal preswyl. Dylai cyfnod y gofal fod yn o leiaf un noson, ond dim mwy na 3 mis. Peidiwch â chynnwys llety cartref gofal dros dro ar gyfer yr unigolion hynny sy'n aros am becyn gofal hirdymor.

**Seibiant byr –** Gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol i roi seibiant i'r gofalwr/gofalwyr ac i'r unigolyn sy'n cael gofal, lle bydd gofalwr a delir yn rhoi cymorth yng nghartref yr unigolyn neu yn ei breswylfa arferol. Dylai cyfnod y gofal fod yn awr neu fwy, ond yn llai na 24 awr neu dros nos.

**Cynllun Lleoli Oedolion (Bywydau a Rennir) –** Dyma gynllun lle mae oedolyn yn byw gyda gofalwr mewn trefniant hirdymor. Gellir rhoi llety a chefnogaeth i un, dau neu, mewn amgylchiadau eithriadol, dri oedolyn a leolir gyda chytundeb Cynllun Lleoli Oedolion.

**Llety â chymorth/byw â chymorth –** Gofal i bobl yn eu cartref/preswylfa eu hunain y mae ganddynt gytundeb tenantiaeth ar ei gyfer.

**Taliadau uniongyrchol –** Taliadau ariannol a wneir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol i oedolion at ddiben prynu gwasanaethau gofal a chymorth.

**Cartrefi gofal i oedolion heb ofal nyrsio –** yn cynnwys:

Gwasanaeth cartref gofal yr awdurdod lleol – Sefydliad sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol ac sy'n darparu llety yn ogystal â gofal fel y diffiniwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Ni ddylid cynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant fel cyfres o seibiannau tymor byr wedi'u cynllunio.

Gwasanaethau cartref gofal y sector annibynnol o dan gontract – Sefydliad preifat sy'n darparu llety yn ogystal â gofal personol.

**Gwasanaethau cartref gofal i oedolion gyda gofal nyrsio –** cartrefi gofal y sector annibynnol o dan gontract, sy'n darparu llety yn ogystal â gofal personol a gofal nyrsio. Ni ddylid cynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant fel cyfres o seibiannau tymor byr wedi'u cynllunio.

**Ailalluogi** - ni fydd gan rai oedolion sy'n cael cymorth ailalluogi ar 31 Mawrth gynllun gofal a chymorth. **Peidiwch â chynnwys y rhain.** Dim ond yr oedolion hynny sydd â chynllun gofal a chymorth cyfredol sydd hefyd yn cael cymorth ailalluogi ar hyn o bryd ar 31 Mawrth.

## Mae ganddo ofalwr hysbys

Mae deall a yw'r unigolyn yn cael cymorth gan ofalwr di-dâl (anffurfiol) yn rhoi trosolwg cyfannol o becyn cymorth yr unigolyn. Rydym yn cydnabod y gall amryw o ofalwyr di-dâl (anffurfiol) fod yn hysbys i'r cleient ac yn rhoi cymorth. At ddibenion casglu, byddai ateb cadarnhaol yn awgrymu bod o leiaf un gofalwr yn hysbys i'r awdurdod lleol ar 31 Mawrth.

Dylai'r wybodaeth hon fod yn seiliedig ar yr asesiad neu'r adolygiad diweddaraf.

Rhowch 1 os oes gan yr unigolyn un neu fwy o ofalwyr hysbys.
Rhowch 0 os nad oes gan yr unigolyn ofalwr hysbys.

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

## Cyfrifoldebau gofalu

Cofnodwch a oes gan yr oedolyn gyfrifoldebau gofalu yn ogystal. Ystyr gofalwr yw unigolyn sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu i blentyn anabl.

Rhowch 0 os nad oes gan yr oedolyn gyfrifoldebau gofalu ar 31 Mawrth.

Rhowch 1 os oes gan yr oedolyn gyfrifoldebau gofalu hysbys ar 31 Mawrth **ac** yn cael cymorth hysbys, parhaus fel gofalwr.

Rhowch 2 os oes gan yr oedolyn gyfrifoldebau gofalu hysbys ar 31 Mawrth ond **nad ydynt neu nad yw'n hysbys** a ydynt yn cael cymorth parhaus fel gofalwr.

Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

Bydd unigolyn wedi cael cynnig asesiad gofalwr os oes ganddo gyfrifoldebau gofalu, os yw wedi manteisio ar y cynnig o asesiad a/neu gymorth i ofalwyr neu beidio. Gall hyn fod ar ffurf gofal a chymorth deuol a chynllun gofalwr.

## Digwyddiadau

Fel rhan o gofnod gofal parhaus yr unigolyn, dylid cofnodi nifer yr asesiadau, ail-asesiadau ac adolygiadau a gwblhawyd. Nodwch faint o'r digwyddiadau hyn sydd wedi digwydd yn y flwyddyn adrodd ar gyfer yr oedolyn sy’n cael gofal a chymorth.

- Nifer yr asesiadau a gwblhawyd (a all gynnwys un neu fwy o asesiadau arbenigol)
- Nifer yr ailasesiadau a gwblhawyd (a all gynnwys un neu fwy o asesiadau arbenigol)
- Nifer yr adolygiadau a gwblhawyd

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau sy’n cynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr ym mhroses yr asesiad. Ni ddylai unrhyw asesiadau arbenigol sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r broses adolygu gynhwysfawr gael eu cyfrif fel asesiadau ar wahân. Gweler AD/004 am fwy o wybodaeth.

Bydd hyn yn awgrymu beth yw’r adnoddau gofynnol ar gyfer gofal yr unigolyn; nid ei fwriad yw adlewyrchu cymhlethdod anghenion yr unigolyn.
Rhowch 88 os nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys.

# Atodiad A – Rhestr o eitemau data

## Manylion craidd

Cod awdurdod lleol
Rhif adnabod oedolyn yr awdurdod lleol
Cyfenw
Enw(au) cyntaf
Cod post cartref yr oedolyn
Dyddiad geni
Rhywedd
Ethnigrwydd
Anabledd – Golwg
Anabledd – Clyw
Anabledd – Corfforol
Anabledd – Salwch meddwl
Anabledd – Dementia
Anabledd – Cyflwr niwroddatblygiadol
Anabledd – Arall (heb ei restru)
Anabledd – Dim
Iaith
Dyddiad dechrau'r cyfnod parhaus diweddaraf o ofal a chymorth
Cynllun gofal a chymorth yn weithredol ar 31 Mawrth
Dyddiad y daeth y cynllun gofal a chymorth i ben
Rheswm dros ddod â'r cynllun gofal a chymorth i ben
Amddiffyn oedolion
Categori amddiffyn – Esgeulustod
Categori amddiffyn – Camdriniaeth corfforol
Categori amddiffyn – Camdriniaeth rhywiol
Categori amddiffyn – Camdriniaeth ariannol
Categori amddiffyn – Camdriniaeth emosiynol/seicolegol (yn unig)

## Manylion gofal a chymorth

Preswylfa
Gweithdrefnau amddiffyn cyfredol
Mathau o ofal a chymorth – Gofal cartref
Mathau o ofal a chymorth – Gofal dydd
Mathau o ofal a chymorth – Gofal seibiant
Mathau o ofal a chymorth – Seibiannau byr
Mathau o ofal a chymorth – Lleoliadau i oedolion
Mathau o ofal a chymorth – Llety â chymorth/byw â chymorth
Mathau o ofal a chymorth – Taliadau uniongyrchol
Mathau o ofal a chymorth – Cartrefi gofal i oedolion heb ofal nyrsio
Mathau o ofal a chymorth – Cartrefi gofal i oedolion gyda gofal nyrsio
Mathau o ofal a chymorth – Teleofal
Mae ganddo ofalwr hysbys
Cyfrifoldebau gofalu
Digwyddiadau

# Atodiad B – Rhestr Codau Iaith

| Cod | Iaith |
|---|---|
| ENG | Saesneg |
| CYM | Cymraeg |
| ACL | Acholi |
| ADA | Adangme |
| AFA | Afar-Saho |
| AFK | Affricaneg |
| AKA | Akan/Twi-Fante |
| ALB | Albaneg/Shqip |
| ALU | Alur |
| AMR | Amhareg |
| ARA | Arabeg |
| ARM | Armeneg |
| ASM | Asameg |
| ASR | Asyrieg/Arameg |
| AYB | Anyi-Baule |
| AYM | Aymara |
| AZE | Aserieg |
| BAI | Bamileceg (Pob un) |
| BAL | Balochieg |
| BEJ | Beja/Bedawieg |
| BEL | Belarwseg |
| BEM | Bemba |
| BHO | Bhojpuri |
| BIK | Bikol |
| BIS | Bislama |
| BLT | Tibeteg Baltaidd |
| BMA | Bwrmeg/Myanma |
| BNG | Bengaleg |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| BSQ | Basgeg/Euskara |
| BUL | Bwlgareg |
| CAM | Cambodieg/Khmer |
| CAT | Catalaneg |
| CCE | Saesneg Creoleg Garibïaidd |
| CF | Ffrangeg Creoleg Garibïaidd |
| CGA | Chaga |
| CGR | Chattisgarhi/Khatahi |
| CHE | Checheneg |
| CHI | Tsieineeg |
| CKW | Chokwe |
| CRN | Cernyweg |
| CTR | Chitrali/Khowar |
| CWA | Chichewa/Nyanja |
| CZE | Tsieceg |
| DAN | Daneg |
| DGA | Dagaare |
| DGB | Dagbane |
| DIN | Dinka/Jieng |
| DUT | Iseldireg/Fflemeg |
| DZO | Dzongkha/Bhutanese |
| EBI | Ebira |
| EDO | Edo/Bini |
| EFI | Efik-Ibibio |
| ESA | Esan/Ishan |
| EST | Estonieg |
| EWE | Ewe |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| EWO | Ewondo |
| FAN | Fang |
| FIJ | Ffijïeg |
| FIN | Ffinneg |
| FON | Fon |
| FRN | Ffrangeg |
| FUL | Fula/Fulfulde-Pulaar |
| GAA | Ga |
| GAE | Gaeleg/Gwyddeleg |
| GAL | Gaeleg (Yr Alban) |
| GEO | Georgeg |
| GER | Almaeneg |
| GGO | Gogo/Chigogo |
| GKY | Kikuyu/Gikuyu |
| GLG | Galicieg/Galego |
| GRE | Groeg |
| GRN | Gwaraneg |
| GUJ | Gwjarati |
| GUN | Gurenne/Frafra |
| GUR | Gurma |
| HAU | Hausa |
| HDK | Hindko |
| HEB | Hebraeg |
| HER | Herero |
| HGR | Hwngareg |
| HIN | Hindi |
| IBA | Iban |
| IDM | Idoma |
| IGA | Igala |
| IGB | Igbo |
| IJO | Ijo (Pob un) |
| ILO | Ilokano |
| ISK | Itsekiri |
| ISL | Islandeg |
| ITA | Eidaleg |
| JAV | Jafaneg |
| JIN | Jinghpaw/Kachin |
| JPN | Japaneeg |
| KAM | Kikamba |
| KAN | Kannada |
| KAR | Karen (Pob un) |
| KAS | Kashmireg |
| KAU | Kanuri |
| KAZ | Kazakh |
| KCH | Katchi |
| KGZ | Kirghiz/Kyrgyz |
| KHA | Khasi |
| KHY | Kihaya/Luziba |
| KIN | Kinyarwanda |
| KIR | Kirundi |
| KIS | Kisi (Gorllewin Affrica) |
| KLN | Kalenjin |
| KMB | Kimbundu |
| KME | Kimeru |
| KNK | Konkani |
| KNY | Kinyakyusa-Ngonde |
| KON | Kikongo |
| KOR | Corëeg |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| KPE | Kpelle |
| KRI | Krio |
| KRU | Kru (Pob un) |
| KSI | Kisii/Ekegusii (Kenya) |
| KSU | Kisukuma |
| KUR | Cwrdeg |
| LAO | Lao |
| LBA | Luba |
| LGA | Luganda |
| LGB | Lugbara |
| LGS | Lugisu/Lumasaba |
| LIN | Lingala |
| LIT | Lithwaneg |
| LNG | Lango (Uganda) |
| LOZ | Lozi/Silozi |
| LSO | Lusoga |
| LTV | Latfieg |
| LTZ | Lwcsembwrgeg |
| LUE | Luvale/Luena |
| LUN | Lunda |
| LUO | Luo (Kenya/Tanzania) |
| LUY | Luhya (Pob un) |
| MAG | Magahi |
| MAI | Maithili |
| MAK | Makua |
| MAN | Manding/Mandekan |
| MAO | Maori |
| MAR | Marathi |
| MAS | Maasai |
| MDV | Maldivian/Dhivehi |
| MEN | Mende |
| MKD | Macedoneg |
| MLG | Malagasi |
| MLM | Malaialam |
| MLT | Maltaeg |
| MLY | Malayeg/Indonesieg |
| MNA | Magindanao-Maranao |
| MNG | Mongoleg (Khalkha) |
| MNX | Manaweg |
| MOR | Moore/Mossi |
| MSC | Creoleg Mawritiws/Seychelles |
| MUN | Munda (Pob un) |
| MYA | Maya (Pob un) |
| NAH | Nahuatl/Mexicano |
| NAM | Nama/Damara |
| NBN | Nwbiaeg (Pob un) |
| NDB | Ndebele |
| NEP | Nepaleg |
| NOR | Norwyeg |
| NUE | Nuer/Naadh |
| NUP | Nupe |
| NWA | Newari |
| NZM | Nzema |
| OAM | Ambo/Oshiwambo |
| OGN | Ogoni (Pob un) |
| ORI | Oriya |
| ORM | Oromo |
| OTL | Iaith Arall / Anhysbys / Methu cyfathrebu |

| Cod | Iaith |
|---|---|
| **PAG** | Pangasineg |
| **PAM** | Pampanganeg |
| **PAT** | Pashto/Pakhto |
| **PHA** | Pahari/Himachali (India) |
| **PHR** | Pahari (Pacistan) |
| **PNJ** | Pwnjabeg |
| **POL** | Pwyleg |
| **POR** | Portiwgaleg |
| **PRS** | Persieg/Ffarsi |
| **QUE** | Quechua |
| **RAJ** | Rajasthaneg/Marwareg |
| **RME** | Romani/Romanes Saesneg |
| **RMI** | Romani (Rhyngwladol) |
| **RMN** | Rwmaneg |
| **RMS** | Romansch |
| **RNY** | Runyakitara |
| **RUS** | Rwsieg |
| **SAM** | Samöeg |
| **SCB** | Serbieg/Croateg/Bosnieg |
| **SCO** | Scoteg |
| **SHL** | Shilluk/Cholo |
| **HO** | Shona |
| **SID** | Sidamo |
| **SIO** | Iaith Arwyddion (Arall) |
| **SLO** | Slofaceg |
| **SLV** | Slofenieg |
| **SND** | Sindhi |
| **SNG** | Sango |
| **SNH** | Sinhala |
| **SOM** | Somalieg |
| **SPA** | Sbaeneg |
| **SRD** | Sardinieg |
| **SRK** | Siraiki |
| **SSO** | Sotho/Sesotho |
| **SSW** | Swazi/Siswati |
| **STS** | Tswana/Setswana |
| **SWA** | Swahili/Kiswahili |
| **SWE** | Swedeg |
| **TAM** | Tamil |
| **TEL** | Telwgw |
| **TEM** | Temne |
| **TES** | Teso/Ateso |
| **TGE** | Tigre |
| **TGL** | Tagalog/Ffilipineg |
| **TGR** | Tigrinya |
| **THA** | Thai |
| **TIB** | Tibeteg |
| **TIV** | Tiv |
| **TMZ** | Berber/Tamazight |
| **TNG** | Tonga/Chitonga (Zambia) |
| **TON** | Tongan (Oceania) |
| **TPI** | Tok Pisin |
| **TRI** | Gwyddeleg Teithwyr/Shelta |
| **TSO** | Tsonga |
| **TUK** | Twrcmeneg |
| **TUL** | Tulu |
| **TUM** | Tumbuka |
| **TUR** | Tyrceg |

| Cod | Iaith |
| --- | --- |
| **UKR** | Wcreineg |
| **UMB** | Umbundu |
| **URD** | Wrdw |
| **URH** | Urhobo-Isoko |
| **UYG** | Uyghur |
| **UZB** | Uzbek |
| **VEN** | Venda |
| **VIE** | Fietnameg |
| **VSY** | Visayan/Bisaya |
| **WAP** | Wa-Paraok (De-ddwyrain Asia) |
| **WCP** | Portiwgaleg Creoleg Gorllewin Affrica |
| **WOL** | Wolof |
| **WPE** | Bratiaith Saesneg Gorllewin Affrica |
| **XHO** | Xhosa |
| **YAO** | Yao/Chiyao (Dwyrain Affrica) |
| **YDI** | Yiddeg |
| **YOR** | Yorwba |
| **ZND** | Zande |
| **ZUL** | Zulu |
| **ZZX** | Wedi gwrthod |

# Atodiad C – Cofnod Newid

## Log Newid 2026-27 Fersiwn 0.1

- Dyddiadau wedi'u symud ymlaen o'r flwyddyn gasglu flaenorol.
- Diwygiadau i fformatio er mwyn gwneud y mwyaf o hygyrchedd.
- Dileu'r cyfeiriad at achosion caeedig – hen derminoleg.
- Canllawiau ychwanegol os bydd yn codi ar ôl 31 Mawrth bod unigolyn sydd wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad yn talu'n breifat am ei ofal ei hun.
- Eglurhad o ganllawiau ynghylch anabledd a maes categori amhariadau.

## Log Newid 2025-26 Fersiwn 0.1

- Dyddiadau wedi'u symud ymlaen o'r flwyddyn gasglu flaenorol
- Cynnwys Log Newidiadau
- Ychwanegu canllawiau ynghylch cynnwys oedolion â chynlluniau Gofal a Thriniaeth ar y ffurflen ARCS.
- Esbonio a diwygio'r adran Anabledd gan gynnwys atebion diwygiedig i wneud ymatebion yn haws.
- Newid “anableddau” yn “amhariadau” yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd
- Ychwanegu ymateb Heb ei Nodi i'r adran Anabledd
- Esbonio'r adran cynllun Gofal a Chymorth.
- Ychwanegu cod ar gyfer ymatebion “heb ei nodi” i Breswylfa, Gweithdrefnau Amddiffyn Cyfredol, Mathau o Ofal a Chymorth, a Digwyddiadau.
- Diwygio Mathau o Ofal a Chymorth – cynnwys Ailalluogi, dileu Teleofal; geiriad diwygiedig ar gyfer yr opsiwn Cynllun Lleoli Oedolion (Bywydau a Rennir).
- Geiriad diwygiedig ar gyfer yr adran Digwyddiadau, sy'n cyfeirio at (ail)asesiadau ac adolygiadau “wedi'u cwblhau”.
- Ail-fformatio rhestr ieithoedd Atodiad B